SESIWN GYMRAEG 5: TRAFOD RHYWEDD

Ystod oedran: 11-16 oed

Amlinelliad
Bydd y dysgwyr yn ystyried effeithiau rhywedd ar eu bywydau eu hunain ac yna'n defnyddio ffynonellau ysgrifenedig a chlipiau fideo i archwilio effeithiau rhywedd ar fywydau pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn Ethiopia ac India. Yna byddant yn trafod y cynnig: "Mae'r tŷ hwn yn credu bod bywyd yn anoddach i ferched sy'n byw mewn tlodi nag i fechgyn". Bydd y dysgwyr yn cael eu hannog i ategu eu barn drwy ddefnyddio enghreifftiau o ffynonellau ysgrifenedig a chlipiau fideo, proffiliau'r bobl ifanc dan sylw (a ddarperir yn *Sesiynau Cymraeg 1, 2 a 3*) a'r hyn maent wedi'i ddysgu dysgu o sesiynau Cymraeg, mathemateg a daearyddiaeth eraill.

Amcanion dysgu

- Datblygu sgiliau dadlau a thrafod.
- Archwilio rhagdybiaethau am rywedd.
- Defnyddio enghreifftiau a gwrthenghreifftiau i gyfiawnhau ymateb.
- Nodi rhai anghydraddoldebau rhwng y rhywiau ym mywydau pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn Ethiopia ac India.

Deilliannau dysgu

- Bydd y dysgwyr yn ystyried yr effeithiau y credant y mae rhywedd yn eu cael ar eu bywydau eu hunain.
- Bydd y dysgwyr yn defnyddio clipiau fideo a ffynonellau ysgrifenedig i archwilio effaith rhywedd ar fywydau rhai pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn Ethiopia ac India.
- Bydd y dysgwyr yn cymryd rhan mewn dadl ynghylch a yw bywyd yn fwy anodd i ferched sy'n byw mewn tlodi nag i fechgyn.

Cwestiynau allweddol

- Yn eich barn chi beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng bywydau bechgyn a merched sy'n byw mewn tlodi yn y DU?
- Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng bywydau bechgyn a merched sy'n byw mewn tlodi yn Ethiopia ac India?
- A ydych yn meddwl y bydd rhywedd yn cael effaith debyg ar fywydau pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yng ngwledydd eraill Young Lives (Periw a Fiet-nam)?

Adnoddau

- *Sioe sleidiau Cymraeg B* (sleidiau 12 ac 13)
- Taflenni adnoddau:
  - *Swyddogaeth cadeirydd*
  - *Ystyried rhywedd a thlodi*
  - *Nodiadau cefndir ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau*
- Fideos:
  - *Lleisiau o India* a Lleisiau o *Ethiopia*

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Noder:

- *Awgrymiadau yn unig yw'r gweithgareddau a'r adnoddau hyn i gefnogi eich dulliau addysgu yn hytrach na'u harwain.* Gall fod angen mewnbwn addysgu ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o rai o'r cysyniadau hyn.
- Mae dysgwyr hefyd yn archwilio anghydraddoldebau rhwng y rhywiau, megis ym maes addysg a defnydd dyddiol pobl ifanc o amser, yn sesiwn Daearyddiaeth 4 a sesiynau Mathemateg 3 a 4. Maent hefyd yn archwilio effaith tlodi ar blant yn y DU yn sesiwn Daearyddiaeth 6.
- Gan ei bod yn debygol y bydd tlodi neu anghydbwysedd rhwng y rhywiau eu hunain yn effeithio'n uniongyrchol ar rai dysgwyr, efallai y bydd angen sensitifrwydd gyda'r sesiwn hon. Ceir gwybodaeth ychwanegol am y cysylltiad rhwng rhywedd a thlodi yn y *nodiadau cefndir ar gyfer athrawon*.

Gweithgaredd 5.1 (10 mun)

Ystyried rhywedd yn y DU

- Trefnwch y dysgwyr yn barau a gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol gan gyfeirio at eu cyd-destunau eu hunain yn y DU:
  - *A ydych yn meddwl bod unrhyw wahaniaethau rhwng bywydau bechgyn a merched yn y DU?*
  - *Yn eich barn chi, beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol?*
  - *Sut y gallai tlodi effeithio ar fywydau merched a bechgyn yn y DU?*

Lle bo angen, nodwch ble mae dysgwyr yn gwneud rhagdybiaethau neu'n cyffredinoli am fechgyn neu ferched a pham y gallai hyn fod yn broblem.

Gweithgaredd 5.2 (20 mun)

Tlodi a rhywedd o fewn y prosiect Young Lives

- Eglurwch y gall fod gwahaniaethau yn y ffordd y mae merched a bechgyn yn profi tlodi a bod y dysgwyr yn mynd i wylio dau glip fideo byr sy'n amlygu rhai anghydraddoldebau rhwng y rhywiau ym mywydau pobl ifanc yn India ac Ethiopia.
- Gwyliwch y clipiau fideo canlynol:
  - Lleisiau o India*
  - Lleisiau o Ethiopia (*o 4 munud 14 eiliad i 8 munud 28 eiliad*)
- Trafodwch beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol i fechgyn a merched sy'n byw mewn tlodi a ddangosir yn y fideos.
- *Atgoffwch y dysgwyr fod astudiaeth Young Lives wedi'i chynnal mewn cymunedau yn nhaleithiau Andhra Pradesh a Telangana yn unig, nid ledled India. Cyfeiria SSA at 'Sarva Shiksha Abhiyan', llywodraeth rhaglen India i wneud addysg rydd a gorfodol i blant 6-14 oed yn hawl sylfaenol.*

Gweithgaredd 5.3 (1 awr)

Trafod rhywedd a thlodi

- Dangoswch sleid 13 ac esboniwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i drafod y cynnig yn ffurfiol "Mae'r tŷ hwn yn credu bod bywyd yn anoddach i ferched sy'n byw mewn tlodi nag i fechgyn."
- Dewiswch un dysgwr i fod yn gadeirydd. Darperir crynodeb o'u swyddogaeth yn *Swyddogaeth cadeirydd*. Gwnewch yn siŵr eu bod yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud, gan y byddant yn cynnal y ddadl. Eglurwch fod y cadeirydd yn ddiduedd.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Dewiswch dri dysgwr i fod yn siaradwyr o blaid y cynnig a thri dysgwr i fod yn siaradwyr yn erbyn y cynnig. Eglurwch y bydd y siaradwyr yn cael eu galw ar ddechrau'r ddadl i roi eu rhesymau o blaid neu yn erbyn y cynnig a darbwyllo aelodau eraill y dosbarth i dderbyn eu barn.
- Gofynnwch i weddill y dosbarth ysgrifennu ar gerdyn gwag neu ddarn o bapur p'un a ydynt o blaid neu yn erbyn y cynnig. Yna dylent ysgrifennu cymaint o resymau dros eu barn ag y gallant.
- Rhowch gopïau i'r dysgwyr o *Ystyried rhywedd a thlodi* a'u hannog i ddefnyddio enghreifftiau i gefnogi eu dadleuon. Efallai yr hoffent gyfeirio at y clipiau fideo yng *Ngweithgaredd 5.2* a phroffiliau'r bobl ifanc dan sylw yn Sesiynau Cymraeg 1, 2 a 3, yn ogystal â'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu yn y sesiynau Cymraeg, Mathemateg a Daearyddiaeth eraill, neu'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn mannau eraill ac o brofiadau allanol eraill. Efallai yr hoffech gefnogi'r dysgwyr i ystyried canlyniadau rhai o'r anghydraddoldebau rhwng y rhywiau yn Ethiopia ac India, yn ogystal ag agweddau eraill ar fyw mewn tlodi yn y ddwy wlad hyn sy'n effeithio ar ferched a bechgyn. Am enghreifftiau, gweler *Nodiadau cefndir ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau* isod. Efallai yr hoffech hefyd helpu'r dysgwyr i greu cysylltiadau a chymariaethau am unrhyw anghydraddoldebau rhwng y rhywiau ym mywydau pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yng ngwledydd eraill Young Lives (Periw a Fiet-nam) yn ogystal ag yn y DU.
- Unwaith y bydd y siaradwyr wedi paratoi a phob dysgwr wedi penderfynu a ydynt o blaid neu yn erbyn y cynnig, dylai'r cadeirydd agor y ddadl a'i rhedeg yn unol â'r cyfarwyddyd yn *Swyddogaeth cadeirydd*.
- Anogwch y dysgwyr i ddarparu gwrthenghreifftiau a gofynnwch a allant nodi unrhyw ragdybiaethau yn yr hyn sy'n cael ei ddweud. Er enghraifft, a yw'r siaradwr wedi tybio bod yr hyn sy'n wir am un person yn wir am bawb?
- Pan fydd y cadeirydd yn cynnal pleidlais ar y cynnig, pwysleisiwch wrth y dysgwyr y gallant newid eu meddyliau. Anogwch nhw i benderfynu drostynt eu hunain ac i beidio â phleidleisio o blaid eu ffrindiau na dilyn eu ffrindiau.
- Ar ôl hynny, rhowch amser byr i'r dysgwyr fyfyrio ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu o'r ddadl. Gofynnwch i'r dysgwyr ddweud sut y mae eu barn naill ai wedi cael ei newid neu ei hatgyfnerthu.

Syniadau Pellach

- Fel dilyniant i'r ddadl, gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu rhywfaint o destun darbwyllo naill ai o blant neu yn erbyn y cynnig, "Mae bywyd yn fwy anodd i ferched sy'n byw mewn tlodi yn India ac Ethiopia nag i fechgyn."
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu o sesiynau Saesneg, Mathemateg a Daearyddiaeth blaenorol i drafod cynigion eraill megis:

  Mae'r tŷ hwn yn credu ...
  - mae bywyd yn fwy anodd i bobl ifanc sy'n byw mewn tlodi mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd dinesig.
  - mae bywyd yn fwy anodd i bobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn Ethiopia nag yn y DU.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB/Young Lives
Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam a Young Lives. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Swyddogaeth Cadeirydd

- Eich gwaith chi yw cynnal y ddadl a sicrhau bod pawb yn siarad ar yr adeg gywir. Mae angen i chi gadw trefn hefyd, fel mai dim ond un person sy'n siarad ar y tro. Efallai y bydd angen i chi alw "Trefn, trefn," ond byddwch yn ofalus o'i wneud mor aml fel nad oes neb yn cymryd unrhyw sylw!
- Agorwch y ddadl drwy ddarllen y cynnig: "Mae'r tŷ hwn yn credu bod bywyd yn fwy anodd i ferched sy'n byw mewn tlodi yn Ethiopia ac India nag i fechgyn."
- Yna galwch y siaradwyr yn eu tro, fel a ganlyn:
  - *Siaradwr cyntaf o blaid y cynnig*
  - *Siaradwr cyntaf yn erbyn y cynnig*
  - *Ail siaradwr o blaid y cynnig*
  - *Ail siaradwr yn erbyn y cynnig*
  - *Trydydd siaradwr o blaid y cynnig*
  - *Trydydd siaradwr yn erbyn y cynnig.*
- Nesaf gofynnwch i'r dysgwyr eraill a oes ganddynt unrhyw bwyntiau neu gwestiynau. Gwnewch yn siŵr bod un siaradwr o blaid y cynnig ac un siaradwr yn erbyn y cynnig yn cael cyfle i ateb unrhyw gwestiynau.
- Galwch y siaradwr cyntaf o blaid y cynnig ac yna'r siaradwr cyntaf yn erbyn y cynnig i grynhoi'n fyr.
- Cynhaliwch bleidlais ar y cynnig. Darllenwch y cynnig eto a gofynnwch i bawb bleidleisio 'o blaid' neu 'yn erbyn'. Dylai'r chwe siaradwr bleidleisio hefyd. Gofynnwch a oes unrhyw un sy'n dymuno ymatal (hynny yw, i ddweud na allant wneud penderfyniad).
- Cyfrwch y pleidleisiau, a chyhoeddwch y canlyniadau fel a ganlyn:
  - *Nifer y rhai o blaid y cynnig (rhowch rif)*
  - *Nifer y rhai yn erbyn y cynnig (rhowch rif)*
  - *Nifer y rhai sydd wedi ymatal (hynny yw, y rhai nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniad – nodwch y nifer).*
- Dewch â'r ddadl i ben drwy ddweud a yw'r cynnig wedi'i dderbyn ai peidio (hynny yw, a yw'r rhan fwyaf o'r grŵp wedi pleidleisio o blaid neu yn erbyn).

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Ystyried rhywedd a thlodi

Dydw i ddim yn mynd i'r ysgol ond mae fy chwiorydd yn mynd. Rydw i'n gofalu am y gwartheg yn lle hynny.

Hadush, bachgen 13 oed, Ethiopia

Gadewais yr ysgol ym Mlwyddyn 1 ac rydw i bellach yn gweithio fel cynorthwyydd gwerthu mewn siop esgidiau. Mae fy mam yn dweud nad oes ganddi ddigon o arian i anfon ni i'r ysgol.

Salman, bachgen 12 oed, India

Mae'n rhaid i mi gasglu'r dŵr mewn potiau o dap stryd yng nghefn ein tŷ. Rydw i hefyd yn glanhau'r llestri ac yn ysgubo'r llawr. Mae'n rhaid i mi weithio'n galed i helpu fy mam gartref. Mae gen i frawd iau ond does dim rhaid iddo wneud unrhyw un waith tŷ gan ei fod yn fachgen.

Harika, merch 12 oed, India

Mae ein gwaith ymchwil wedi canfod bod priodi a geni plant yn ifanc yn fwy cyffredin ymysg merched o aelwydydd tlotach na bechgyn yn Ethiopia, India a Fiet-nam.

Swyddog ymchwil Bywydau Ifanc

Mae fy mrawd yn mynd i'r ysgol breifat gan mai ef yw'r unig fab. Gan fy mod yn ferch, maen nhw'n dweud na allaf ond astudio hyd ddiwedd Blwyddyn 10. Rydw i'n mynychu un o ysgolion y llywodraeth; oherwydd ei fod yn fachgen ac mae'n rhaid iddo fynd allan i ennill cyflog mae ei addysg ef yn bwysicach.

Fathima, merch 13 oed, India

Yn fy ardal i, mae rhieni'n poeni mwy am fechgyn na merched. Mae hyn yn cael effaith ar ferched: er enghraifft, nid oes gan ferched sy'n mynd i'r ysgol unrhyw amser i eistedd a gwneud eu gwaith cartref. Mae gan fechgyn amser i wneud gwaith cartref. Ond i ferch mae'n rhaid iddi wneud gwaith cartref a gwneud gwaith tŷ.

Megani, merch 13 oed, Ethiopia

Er bod merched yn cael mynd i'r ysgol nawr mae yna ddywediad o hyd yn y gymuned hon: "P'un a yw merch yn cael ei haddysgu ai peidio, yn y pen draw priodi yw ei thynged."

Desta, merch 13 oed, Ethiopia

Yn Ethiopia, mae ein gwaith ymchwil wedi canfod bod merched yn ymwneud yn bennaf â gweithgareddau domestig fel casglu dŵr a choed tân, paratoi bwyd a golchi dillad. Mae bechgyn yn cymryd mwy o ran mewn gweithgareddau annomestig fel gofalu am wartheg, chwynnu a chynaeafu.

Swyddog ymchwil Bywydau Ifanc

Pan fydda i'n mynd adref o'r ysgol rydw i'n mynd yn syth i wneud tasgau domestig felly does gen i ddim amser i astudio ac mae hyn wedi cael effaith ar fy mherfformiad yn yr ysgol.

Chaltu, merch 10 oed, Ethiopia

Nid oes gan y rhan fwyaf o bobl yn y pentref ddiddordeb mewn annog merched i aros ymlaen yn yr ysgol, ond byddant yn gwneud yn siŵr bod y bechgyn yn mynychu oherwydd bydd eu meibion yn gofalu amdanynt pan fyddant yn hen, tra bo merched yn gadael i helpu teulu eu gŵyr.

Rhiant un o bobl ifanc y prosiect Bywydau Ifanc. India

Yn Ethiopia, Periw a Fiet-nam, mae bechgyn tlawd yn fwy tebygol na merched tlawd o fod wedi rhoi'r gorau i'r ysgol erbyn 15 oed. Gall hyn fod oherwydd bod bechgyn yn aml yn cael mwy o gyfleoedd i ennill mwy o arian drwy weithio na merched.

Swyddog ymchwil Bywydau Ifanc

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Nodiadau cefndir ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau

Gweithgaredd 5.3

Enghreifftiau o ganlyniadau anghydraddoldebau rhwng y rhywiau

- Gall gadael yr ysgol i ddechrau gweithio olygu bod pobl ifanc yn wynebu peryglon iechyd a diogelwch fel plaladdwyr a pheiriannau peryglus.
- Mae merched sy'n priodi neu sy'n geni plant yn ifanc yn wynebu nifer o risgiau, megis mwy o risg o farw yn ystod beichiogrwydd a genedigaeth. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod yn llai maethlon, yn llai addysgedig ac mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin.

Enghreifftiau o agweddau ar fyw mewn tlodi a rennir gan ferched a bechgyn yn Ethiopia ac India

- Bydd bechgyn a merched sy'n byw mewn tlodi yn fwy agored i glefydau megis malaria a salwch a gludir gan ddŵr.
- Bydd bechgyn a merched yn fwy tebygol o fyw mewn tai gwael a chael deiet nad yw'n iach.
- Gall bechgyn a merched ddioddef rhyw fath o stigma yn y gymuned ehangach o ganlyniad i fod yn dlawd.

Rhywedd a thlodi

Merched yw'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw mewn tlodi yn y byd. Yn aml iawn mae gan ferched lai o adnoddau, llai o hawliau a llai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau, o'u cymharu â dynion. Mae llawer o resymau, a'r rheiny'n rhesymau cymhleth yn aml, pam y mae merched yn wynebu mwy o risg, er enghraifft trais domestig, gwahaniaethu a diffyg addysg.

Cyfrifwyd yn 2009 fod merched yn cynrychioli dwy ran o dair o'r bobl sy'n byw mewn tlodi eithafol a 60% o'r bobl dlawd yn y byd sy'n gweithio.[i] Yn aml iawn mae merched yn berchen ar lai o asedau na dynion, yn ennill llai o arian ac yn gwneud y rhan fwyaf o waith gofalu yn ddi-dâl. Yn ychwanegol at hyn, mae llai o ferched yn cael eu cynrychioli mewn gwleidyddiaeth ac yn aml iawn mae tuedd i wahaniaethu yn eu herbyn yn gyfreithiol hefyd. Mae gan ferched statws cyfreithiol is na dynion o hyd mewn 128 o wledydd yn y byd

Gallwch ddarganfod mwy am waith Oxfam ar hawliau merched yma:

www.oxfam.org.uk/what-we-do/issues-we-work-on/womens-rights

Global Employment Trends for Women (International Labour Organisation 2009.
://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/---dgreports/---dcomm/documents/publication/wcms_103456.pdf

[ii] *Women, men and poverty: an introduction to gender justice*, Oxfam, 2015
policy-practice.oxfam.org.uk/blog/2015/09/women-men-and-poverty-an-introduction-to-gender-justice

Anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a thlodi o fewn prosiect Young Lives

Daw gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn fwy yn ystod y glasoed, wrth i hunaniaethau o ran rhywedd ddod yn gryfach. Mae anghydraddoldebau ar sail rhyw hefyd yn dod yn fwy amlwg yn ystod y cyfnod hwn, ond mae patrymau'n gymhleth ac nid merched ifanc sydd dan anfantais bob amser. Effeithir ar fechgyn a merched ar wahanol oedrannau ac mewn gwahanol ffyrdd, wedi'u dylanwadu gan amrywiaeth o ffactorau fel deinameg aelwydydd, cyd-destun cymdeithasol-ddiwylliannol a phwysau economaidd.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Yn y rhan fwyaf o wledydd, mae'r glasoed yn adeg pan ddisgwylir i bobl ifanc fod wedi cwblhau'u haddysg gynradd a symud i'r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, mewn llawer o wledydd mae hon hefyd yn adeg pan fo canran y bobl ifanc sydd wedi cofrestru yn yr ysgol yn gostwng yn sylweddol. Efallai y bydd yn rhaid i bobl ifanc adael yr ysgol i ddod o hyd i waith. Gall eraill briodi a dod yn rhieni eu hunain.

O fewn cymunedau Young Lives, mae gwahaniaethau rhwng y rhywiau eisoes yn amlwg mewn addysg erbyn 12 oed. Wrth i'r glasoed fynd yn ei flaen, mae bylchau rhwng nifer y merched a nifer y bechgyn sydd wedi cofrestru mewn ysgol yn cynyddu ond mae patrymau gwahanol mewn gwahanol wledydd. Yn Ethiopia, Periw a Fiet-nam, mae bechgyn tlawd yn fwy tebygol na merched tlawd o fod wedi rhoi'r gorau i'r ysgol erbyn cyrraedd 15 oed, o bosibl am fod gan fechgyn yn aml y potensial i ennill mwy o arian drwy weithio na merched. Yn Ethiopia, y rheswm mwyaf cyffredin dros adael yr ysgol ymysg merched yw'r angen i ofalu am frodyr a chwiorydd. Yr ail reswm mwyaf cyffredin yw na all teuluoedd fforddio costau addysg. Mae'r ail reswm hwn yn cael ei roi'n llawer mwy cyffredin yn achos merched na bechgyn.

Yn India, fodd bynnag, mae merched yn llai tebygol na bechgyn o gael eu cofrestru yn yr ysgol, beth bynnag fo cyfoeth eu cartref. Mae'r cyd-destun cymdeithasol-ddiwylliannol a chyfrifoldebau gofal yn golygu bod merched ifanc yn fwy tebygol o adael yr ysgol yn gynnar. Mae'r ysgol uwchradd hefyd yn aml yn peri mwy o risgiau i ferched na'r ysgol gynradd. Er enghraifft, gall taith hirach i'r ysgol ac oddi yno arwain at fwy o risg o ymosodiad rhywiol. Mae rhieni'n aml yn rhoi mwy o bwyslais ar addysg bechgyn oherwydd eu bod yn disgwyl i'w meibion ofalu amdanynt pan fyddan nhw'n hen, tra bo merched yn aml yn gadael i fyw gyda theulu eu gŵyr.

Ym mhob un o'r pedair gwlad, mae canran y bobl ifanc sy'n briod neu'n cyd-fyw erbyn 19 oed yn uwch ymhlith merched nag ymhlith bechgyn. Yn Ethiopia, India a Fiet-nam, mae priodi a geni plant yn ifanc yn fwyaf cyffredin ymysg merched o aelwydydd tlotach ac ardaloedd gwledig. Mae nifer o risgiau ynghlwm wrth briodi a geni plant yn ifanc, gan gynnwys marwolaethau uwch ymhlith babanod a mamau, risgiau iechyd fel heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Tuedda mamau ifanc i fod yn llai maeth, yn llai addysgedig ac mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin. Fel arfer, mae ganddynt hefyd fynediad is at gyfleoedd economaidd a llai o lais wrth wneud penderfyniadau.

Deunydd Darllen Pellach

- *How Gender Shapes Adolescence: Diverging Paths and Opportunities,* Young Lives Policy Brief 22, Emma Feeny a Gina Crivello, 2015. www.younglives.org.uk/publications/PP/how-gender-shapes-adolescence
- *From Infancy to Adolescence: Preliminary Findings from Round 4,* Young Lives Policy Paper 7, Paul Dornan a Kirrily Pells, 2014. www.younglives.org.uk/publications/PP/from-infancy-to-adolescence

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.